



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2024 Rhif 316 (Cy. 56)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024

NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau*)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau UCD 2003").

Mae rheoliad 2 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn gymwys i waharddiadau sy'n digwydd ar neu ar ôl 8 Ebrill 2024.

Mae rheoliad 3 o Reoliadau UCD 2003 yn rhagnodi mai'r awdurdod lleol yw'r corff cyfrifol o dan adran 52(5) o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer ystyried a ddylid derbyn disgybl yn ôl mewn perthynas â gwaharddiad am gyfnod penodedig o uned cyfeirio disgyblion ("UCD"). Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau UCD 2003 i ragnodi yn lle hynny mai pwylgor rheoli UCD yw'r corff cyfrifol, ac yn gwneud hyn mewn perthynas â gwaharddiadau am gyfnod penodedig a gwaharddiadau parhaol.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau UCD 2003. Mae'n darparu bod dyletswydd hefyd bellach ar yr athro neu'r athrawes â gofal i roi gwybod i'r person perthnasol y caniateir i'r person perthnasol (a'r disgybl sydd wedi ei wahardd, pan nad y disgybl sydd wedi ei wahardd yw'r person perthnasol) gyflwyno sylwadau i'r pwylgor rheoli pan fo disgybl

2024 No. 316 (W. 56)

EDUCATION, WALES

The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

EXPLANATORY NOTE

(*This note is not part of the Regulations*)

These Regulations amend the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003 ("the 2003 PRU Regulations").

Regulation 2 provides that these Regulations apply to exclusions which occur on or after 8 April 2024.

Regulation 3 of the 2003 PRU Regulations prescribes the local authority as the responsible body under section 52(5) of the Education Act 2002 for considering whether a pupil should be reinstated in relation to a fixed period exclusion from a pupil referral unit ("PRU"). Regulation 3 of these Regulations amends regulation 3 of the 2003 PRU Regulations to instead prescribe the management committee of a PRU as the responsible body, and in relation to both fixed period and permanent exclusions.

Regulation 4 amends regulation 5 of the 2003 PRU Regulations. It provides that the teacher in charge is also now under a duty to inform the relevant person that the relevant person, (and the excluded pupil where the excluded pupil is not the relevant person), may make representations to the management committee where a pupil has been excluded permanently. It omits

wedi ei wahardd yn barhaol. Mae'n hepgor y gofyniad i'r athro neu'r athrawes â gofal hysbysu'r person perthnasol am ei hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wahardd disgybl yn barhaol, gan fod y Rheoliadau hyn bellach yn darparu mai hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y pwylgor rheoli i beidio â derbyn disgybl yn ôl o dan reoliad 7 o Reoliadau UCD 2003 yw'r hawl. Mae rheoliad 4 yn darparu ymhellach fod rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal roi gwybod i'r pwylgor rheoli yn ogystal â'r awdurdod lleol os yw'r gwaharddiad yn barhaol, os bydd yn golygu y bydd y disgybl yn colli arholiad cyhoeddus neu os bydd yn mynd â chyfanswm y gwaharddiadau ar gyfer y disgybl hwnnw i dros bum niwrnod mewn tymor.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 6 o Reoliadau UCD 2003 i'w gwneud yn ddyletswydd ar y pwylgor rheoli i ddarparu ystod o wybodaeth sy'n ymwneud â gwaharddiadau i'r awdurdod lleol bob tymor.

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau UCD 2003 i adlewyrchu mai rôl y pwylgor rheoli yn hytrach na'r awdurdod lleol yw ystyried a ddylid derbyn disgybl yn ôl. Mae hefyd yn estyn yr achosion pan fo'n ofynnol i'r pwylgor rheoli ystyried a ddylid derbyn disgybl yn ôl i gynnwys achosion pan fo disgybl wedi ei wahardd yn barhaol. Os bydd yn penderfynu na ddylid derbyn y disgybl yn ôl neu'n penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd i'r athro neu'r athrawes â gofal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl, rhaid i'r pwylgor rheoli roi hysbysiad i'r person perthnasol, sy'n rhoi manylion yngylch ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Mae rheoliad 8 o Reoliadau UCD 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i'r person perthnasol apelio yn erbyn penderfyniad gan yr athro neu'r athrawes â gofal i wahardd disgybl yn barhaol. Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 8 o Reoliadau UCD 2003 fel bod yr awdurdod lleol o dan ddyletswydd yn lle hynny i wneud trefniadau i'r person perthnasol apelio yn erbyn penderfyniad gan y pwylgor rheoli i beidio â derbyn disgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol yn ôl.

Mae rheoliad 8 yn ychwanegu pwylgorau rheoli at y rhestr o'r rhai y mae'n ofynnol iddynt roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae rheoliad 9 yn darparu bod rhaid i'r pwylgor rheoli sefydlu ffeithiau yn ôl pwysau tebygolrwydd.

the requirement for the teacher in charge to notify the relevant person of their right to appeal against a decision to exclude a pupil permanently, as these Regulations now provide that the right to appeal is against the management committee's decision not to reinstate a pupil under regulation 7 of the 2003 PRU Regulations. Regulation 4 further provides that the teacher in charge must inform the management committee as well as the local authority if the exclusion is permanent, will result in the pupil missing a public examination or takes the total exclusions for that pupil to over five days in a term.

Regulation 5 amends regulation 6 of the 2003 PRU Regulations to make it the duty of the management committee to provide a range of information relating to exclusions to the local authority each term.

Regulation 6 amends regulation 7 of the 2003 PRU Regulations to reflect that it is the role of the management committee rather than the local authority to consider whether a pupil should be reinstated. It also extends the cases where the management committee is required to consider whether a pupil should be reinstated to include cases where a pupil has been excluded permanently. If it decides that the pupil should not be reinstated or decides not to give a direction to the teacher in charge requiring the reinstatement of the pupil, the management committee must give the relevant person a notice detailing their right to appeal against the decision.

Regulation 8 of the 2003 PRU Regulations requires the local authority to make arrangements for the relevant person to appeal against a decision of the teacher in charge to permanently exclude a pupil. Regulation 7 of these Regulations amends regulation 8 of the 2003 PRU Regulations so that the local authority is instead under a duty to make arrangements for the relevant person to appeal against a decision of the management committee not to reinstate a pupil who has been permanently excluded.

Regulation 8 adds management committees to the list of those required to have regard to guidance given by the Welsh Ministers in discharging their functions.

Regulation 9 provides that the management committee must establish facts on a balance of probabilities.

Mae rheoliad 10 yn diwygio'r Atodlen i Reoliadau UCD 2003 i adlewyrchu mai yn erbyn penderfyniad y pwylgor rheoli i beidio â derbyn yn ôl ddisgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol y mae'r apêl, yn hytrach nag yn erbyn penderfyniad yr athro neu'r athrawes â gofal i wahardd y disgybl yn barhaol. Mae'r Atodlen hefyd wedi ei diwygio i ddarparu bod gan y pwylgor rheoli hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, i gael ei gynrychioli ac i ymddangos a chyflwyno sylwadau llafar gerbron y panel apêl, a hawl i gael gwybod am benderfyniad y panel.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenreidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 10 amends the Schedule to the 2003 PRU Regulations to reflect that the appeal is against the decision of the management committee not to reinstate a pupil who has been permanently excluded, rather than against the teacher in charge's decision to permanently exclude the pupil. The Schedule is also amended to provide that the management committee has a right to make written representations, to be represented and to appear and make oral representations before the appeal panel and a right to be informed of the panel's decision.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2024 Rhif 316 (Cy. 56)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024

Gwnaed 6 Mawrth 2024
Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru 8 Mawrth 2024
Yn dod i rym 8 Ebrill 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwersau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(3), (4)(b), (c) a (d) a 52(5)(b), 210(7) a 214(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau UCD 2003" yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003(3).

2024 No. 316 (W. 56)

EDUCATION, WALES

The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

<i>Made</i>	<i>6 March 2024</i>
<i>Laid before Senedd Cymru</i>	<i>8 March 2024</i>
<i>Coming into force</i>	<i>8 April 2024</i>

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 52(3), (4)(b), (c) and (d) and (5)(b), 210(7) and 214(1) and (2) of the Education Act 2002(1) and now vested in them(2), make the following Regulations:

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) (Amendment) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 8 April 2024.

(3) In these Regulations “the 2003 PRU Regulations” means the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003(3).

(1) 2002 p. 32. *Gweler* adran 212(1) am ystyr “regulations” a “prescribed”. Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(1), (3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2).

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (n. 32).

(3) O.S. 2003/3246 (Cy. 321), a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/1805 (Cy. 193) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101).

(1) 2002 c. 32. See section 212(1) for the meaning of “regulations” and “prescribed”. Section 210(7) was amended by section 21(1), (3)(c)(i) and (ii) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2).

(2) The functions of the National Assembly for Wales under these sections were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) S.I. 2003/3246 (W. 321), amended by S.I. 2004/1805 (W. 193) and S.I. 2010/1142 (W. 101).

Gwaharddiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i waharddiadau sy'n digwydd ar neu ar ôl 8 Ebrill 2024.

(2) Mae Rheoliadau UCD 2003, fel yr oeddent cyn eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, yn parhau i fod yn gymwys i waharddiadau sy'n digwydd cyn 8 Ebrill 2024.

Diwygio rheoliad 3 o Reoliadau UCD 2003

3.—(1) Mae rheoliad 3 (y corff cyfrifol) o Reoliadau UCD 2003 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle "yr awdurdod lleol sy'n cynnal" rhodder "pwylgor rheoli".

(3) Hepgorer "am gyfnod penodedig".

Diwygio rheoliad 5 o Reoliadau UCD 2003

4.—(1) Mae rheoliad 5 (gwahardd disgyblion: y ddyletswydd i hysbysu'r person perthnasol a'r awdurdod lleol) o Reoliadau UCD 2003 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, ar ôl "person perthnasol" mewnosoder "y pwylgor rheoli".

(3) Ym mharagraff (1)—

- (a) hepgorer "am gyfnod penodedig";
- (b) yn is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder "neu, os yw'r disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol, fod y disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol";
- (c) yn is-baragraff (c)—
 - (i) ar ôl "y caiff" mewnosoder "y person perthnasol", a
 - (ii) yn lle "awdurdod lleol", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "pwylgor rheoli".

(4) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Os bydd athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion yn penderfynu y dylid gwneud unrhyw waharddiad ar ddisgybl am gyfnod penodedig yn waharddiad parhaol, rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal yn ddi-oed gymryd camau rhesymol i hysbysu'r person perthnasol—

- (a) o'r penderfyniad, a
- (b) o'r materion a bennir yn is-baragraffau (b) i (ch) o baragraff (1)."

Exclusions to which these Regulations apply

2.—(1) These Regulations apply to exclusions which occur on or after 8 April 2024.

(2) The 2003 PRU Regulations, as unamended by these Regulations, continue to apply to exclusions which occur before 8 April 2024.

Amendments to regulation 3 of the 2003 PRU Regulations

3.—(1) Regulation 3 (responsible body) of the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

(2) For "local authority which maintains" substitute "management committee of".

(3) For "a fixed period exclusion" substitute "an exclusion".

Amendments to regulation 5 of the 2003 PRU Regulations

4.—(1) Regulation 5 (exclusion of pupils: duty to inform the relevant person and local authority) of the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

(2) In the heading, after "relevant person" insert ", management committee".

(3) In paragraph (1)—

- (a) omit "for a fixed period";
- (b) in sub-paragraph (a), at the end insert "or, if the pupil is being permanently excluded, that the pupil is being permanently excluded";
- (c) in sub-paragraph (c)—
 - (i) for "he or she" substitute "the relevant person", and
 - (ii) for "local authority", in both places it occurs, substitute "management committee".

(4) After paragraph (1) insert—

"(1A) Where the teacher in charge of a pupil referral unit decides that any exclusion of a pupil for a fixed period should be made permanent, the teacher in charge must without delay take reasonable steps to inform the relevant person of—

- (a) the decision, and
- (b) the matters specified in sub-paragraphs (b) to (d) of paragraph (1)."

(5) Yn lle paragraffau (2) a (3) rhodder—

“(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os bydd yr athro neu'r athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion—

- (a) yn gwahardd unrhyw ddisgybl mewn amgylchiadau pan fyddai'r disgybl, yn sgil y gwaharddiad—
 - (i) yn cael ei wahardd o'r uned cyfeirio disgyblion am gyfanswm o fwy na phum diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor unigol, neu
 - (ii) yn colli cyfle i sefyll unrhyw arholiad cyhoeddus,
- (b) yn gwahardd disgybl yn barhaol, neu
- (c) yn penderfynu y dylid gwneud unrhyw waharddiad ar ddisgybl yn waharddiad parhaol.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal yn ddi-oed hysbysu'r pwylgor rheoli a'r awdurdod lleol o'r materion canlynol—

- (a) cyfnod y gwaharddiad neu, os yw'r disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol, fod y disgybl yn cael ei wahardd felly, neu
- (b) penderfyniad yr athro neu'r athrawes â gofal y dylid gwneud unrhyw waharddiad ar ddisgybl am gyfnod penodedig yn waharddiad parhaol,

ac (yn y naill achos neu'r llall) y rhesymau drosto.”

(6) Hepgorer paragraff (4).

(7) Ym mharagraff (5)—

- (a) ar ôl “hysbysu'r” mewnosoder “pwylgor rheoli a'r”;
- (b) yn lle “paragraffau (2) neu (3)” rhodder “paragraff (2)”.

Diwygio rheoliad 6 o Reoliadau UCD 2003

5.—(1) Mae rheoliad 6 (gwahardd disgyblion: darparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) o Reoliadau UCD 2003 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, yn lle “Chynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Gweinidogion Cymru”.

(3) Ym mharagraff (1)—

- (a) yn lle “athro neu'r athrawes â gofal” rhodder “pwylgor rheoli”;

(5) For paragraphs (2) and (3) substitute—

“(2) Paragraph (3) applies where the teacher in charge of a pupil referral unit—

- (a) excludes any pupil in circumstances where the pupil would, as a result of the exclusion—
 - (i) be excluded from the pupil referral unit for a total of more than five school days in any one term, or
 - (ii) lose an opportunity to take any public examination,
- (b) excludes a pupil permanently, or
- (c) decides that any exclusion of a pupil should be made permanent.

(3) Where this paragraph applies, the teacher in charge must without delay inform the management committee and the local authority of the following matters—

- (a) the period of the exclusion or, if the pupil is being permanently excluded, that the pupil is being so excluded, or
- (b) the teacher in charge's decision that any exclusion of a pupil for a fixed period should be made permanent,

and (in either case) the reasons for it.”

(6) Omit paragraph (4).

(7) In paragraph (5)—

- (a) after “inform” insert “the management committee and”;
- (b) for “paragraphs (2) or (3)” substitute “paragraph (2)”.

Amendments to regulation 6 of the 2003 PRU Regulations

5.—(1) Regulation 6 (exclusion of pupils: provision of information to the local authority and the National Assembly for Wales) of the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

(2) In the heading, for “National Assembly for Wales” substitute “Welsh Ministers”.

(3) In paragraph (1)—

- (a) for “teacher in charge” substitute “management committee”;

- (b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—
- “(ba) pan fo gan y disgyl sydd wedi’i wahardd anghenion dysgu ychwanegol, neu y gall fod ganddo anghenion dysgu ychwanegol, a yw’r corff llywodraethu neu’r awdurdod lleol, neu a oedd ar adeg y gwaharddiad—
- (i) yn penderfynu a oes gan y disgyl anghenion dysgu ychwanegol,
 - (ii) yn llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer y disgyl, neu
 - (iii) yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y disgyl,
- yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(1);”.

(4) Yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth, os byddant yn gofyn amdani, y mae’r awdurdod lleol wedi’i chael oddi wrth athro neu athrawes â gofal o dan reoliad 5(3) neu 5(5) neu oddi wrth bwyllgor rheoli o dan reoliad 6(1).”

Diwygio rheoliad 7 o Reoliadau UCD 2003

6.—(1) Mae rheoliad 7 (swyddogaethau awdurdod lleol mewn perthynas â disgylion wedi’u gwahardd am gyfnod penodedig) o Reoliadau UCD 2003 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd—

- (a) yn lle “awdurdod lleol” rhodder “bwyllgor rheoli”;
- (b) yn lle “wedi’u gwahardd am gyfnod penodedig” rhodder “sydd wedi’u gwahardd”.

(3) Yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Mae paragraffau (2) i (6) yn gymwys pan hysbysir y bwyllgor rheoli o’r canlynol o dan reoliad 5(3)—

- (a) gwahardd disgyl yn barhaol,
- (b) penderfyniad y dylid gwneud unrhyw waharddiad ar ddisgyl yn waharddiad parhaol, neu

(b) after sub-paragraph (b) insert—

“(ba) where the excluded pupil has or may have additional learning needs, whether the governing body or the local authority is, or was at the time of the exclusion—

- (i) determining whether the pupil has additional learning needs,
 - (ii) preparing an individual development plan for the pupil, or
 - (iii) maintaining an individual development plan for the pupil,
- in accordance with Part 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(1);”.

(4) For paragraph (2) substitute—

“(2) A local authority must provide to the Welsh Ministers at their request any information the local authority has received from a teacher in charge under regulation 5(3) or 5(5) or from a management committee under regulation 6(1).”

Amendments to regulation 7 of the 2003 PRU Regulations

6.—(1) Regulation 7 (functions of local authority in relation to pupils excluded for a fixed period) of the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

(2) In the heading—

- (a) for “local authority” substitute “management committee”;
- (b) for “pupils excluded for a fixed period” substitute “excluded pupils”.

(3) For paragraph (1) substitute—

“(1) Paragraphs (2) to (6) apply where the management committee is informed under regulation 5(3) of—

- (a) the permanent exclusion of a pupil,
- (b) a decision that any exclusion of a pupil should be made permanent, or

(1) 2018 dccc 2.

(1) 2018 anaw 2.

- (c) gwahardd unrhyw ddisgybl, a'r amgylchiadau yw y byddai'r disgybl, yn sgil y gwaharddiad—
- (i) yn cael ei wahardd o'r uned cyfeirio disgyblion am gyfanswm o fwy na 15 diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor unigol, neu
 - (ii) yn colli cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus.”
- (4) Ym mharagraff (2)—
- (a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “awdurdod lleol” rhodder “pwylgor rheoli”;
 - (b) yn is-baragraff (b)—
 - (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (b)(i), yn lle “awdurdod lleol” rhodder “pwylgor rheoli”;
 - (ii) ar ddiwedd paragraff (ii) hepgorer “a”;
 - (iii) ar ddiwedd paragraff (iii), yn lle “;” rhodder “, a”;
 - (iv) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—
 - “(iv) gan yr awdurdod lleol;”;
 - (c) yn is-baragraff (c)—
 - (i) yn lle “caniatáu” rhodder “cynnll cyfarfod a chaniatáu”;
 - (ii) ar ddiwedd paragraff (ii) hepgorer “a”;
 - (iii) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—
 - “a
 - (iv) un o swyddogion yr awdurdod lleol, a enwebwyd gan yr awdurdod;”;
 - (iv) yn lle “i gyfarfod â'r awdurdod lleol” rhodder “i'r cyfarfod hwnnw”.
- (5) Ym mharagraff (3)—
- (a) yn lle “awdurdod lleol” rhodder “pwylgor rheoli”;
 - (b) yn y testun Saesneg, yn lle “he or she” rhodder “the pupil”.
- (6) Ym mharagraff (4)—
- (a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “yr awdurdod lleol” rhodder “y pwylgor rheoli”;
 - (b) yn is-baragraff (b), ar ôl “person perthnasol” mewnosoder “a'r awdurdod lleol”.
- (7) Ym mharagraff (5), yn lle “yr awdurdod lleol” rhodder “y pwylgor rheoli”.
- (c) the exclusion of any pupil, and the circumstances are that the pupil would, as a result of the exclusion—
- (i) be excluded from the pupil referral unit for a total of more than 15 school days in any one term, or
 - (ii) lose an opportunity to take a public examination.”
- (4) In paragraph (2)—
- (a) in the words before sub-paragraph (a), for “local authority” substitute “management committee”;
 - (b) in sub-paragraph (b)—
 - (i) in the words before sub-paragraph (b)(i), for “local authority” substitute “management committee”;
 - (ii) at the end of paragraph (ii) omit “and”;
 - (iii) at the end of paragraph (iii), for “;” substitute “, and”;
 - (iv) after paragraph (iii) insert—
 - “(iv) by the local authority;”;
 - (c) in sub-paragraph (c)—
 - (i) at the beginning insert “convene a meeting and”;
 - (ii) at the end of paragraph (ii) omit “and”;
 - (iii) after paragraph (iii) insert—
 - “and
 - (iv) an officer of the local authority nominated by the authority;”;
 - (iv) for “a meeting with the local authority” substitute “that meeting”.
- (5) In paragraph (3)—
- (a) for “local authority” substitute “management committee”;
 - (b) in the English language text, for “he or she” substitute “the pupil”.
- (6) In paragraph (4)—
- (a) in the words before sub-paragraph (a) for “local authority” substitute “management committee”;
 - (b) in sub-paragraph (b), after “relevant person” insert “and the local authority”.
- (7) In paragraph (5), for “local authority” substitute “management committee”.

(8) Ym mharagraff (6)—

- (a) yn lle “yr awdurdod lleol” rhodder “y pwylgor rheoli”;
- (b) yn lle’r geiriau o “hysbysu’r person perthnasol” hyd at y diwedd rhodder—

“yn ddi-oded—

- (a) hysbysu’r person perthnasol, yr athro neu’r athrawes â gofal a’r awdurdod lleol o’i benderfyniad, a
- (b) yn ychwanegol, yn achos disgyl sydd wedi’i wahardd yn barhaol, roi hysbysiad ysgrifenedig i’r person perthnasol, sy’n cyfeirio at y penderfyniad hwnnw ac sy’n datgan y materion a ganlyn—
 - (i) y rhesymau dros y penderfyniad,
 - (ii) hawl y person perthnasol i apelio yn erbyn y penderfyniad,
 - (iii) y person y dylai’r person perthnasol roi unrhyw hysbysiad o apêl iddo,
 - (iv) bod rhaid i unrhyw hysbysiad o apêl gynnwys y sail dros yr apêl, a
 - (v) y dyddiad olaf y caniateir i apêl gael ei gwneud.”

(9) Ym mharagraff (7)(b), yn lle “yr awdurdod lleol” rhodder “y pwylgor rheoli”.

(10) Ym mharagraff (8)—

- (a) yn lle “awdurdod lleol” rhodder “pwylgor rheoli”;
- (b) yn is-baragraff (b), ar ôl “yn achos gwaharddiad” mewnosoder “parhaol neu waharddiad”;
- (c) yn y geiriau ar ôl is-baragraff (c), yn lle “5(2)” rhodder “5(3)”.

(11) Ym mharagraff (9)—

- (a) hepgorer “am gyfnod penodedig”;
- (b) yn y testun Saesneg, yn lle “he or she” rhodder “the pupil”;
- (c) yn lle “awdurdod lleol” rhodder “pwylgor rheoli”.

(12) Ym mharagraff (10), yn lle “corff llywodraethu” rhodder “pwylgor rheoli”.

(13) Ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

“(11) Caniateir rhoi’r hysbysiad ysgrifenedig y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b) naill ai—

- (a) drwy ei draddodi â llaw i gyfeiriad hysbys diwethaf y person perthnasol, neu

(8) In paragraph (6)—

- (a) for “local authority” substitute “management committee”;
- (b) for the words from “without delay” to the end substitute—

“without delay—

- (a) inform the relevant person, the teacher in charge and the local authority of their decision, and
- (b) in addition, in the case of a pupil who is permanently excluded, give the relevant person notice in writing referring to that decision and stating the following matters—
 - (i) the reasons for the decision,
 - (ii) the relevant person’s right to appeal against the decision,
 - (iii) the person to whom the relevant person should give any notice of appeal,
 - (iv) that any notice of appeal must contain the grounds of appeal, and
 - (v) the last date on which an appeal may be made.”

(9) In paragraph (7)(b), for “local authority” substitute “management committee”.

(10) In paragraph (8)—

- (a) for “local authority” substitute “management committee”;
- (b) in sub-paragraph (b), after “in the case of” insert “a permanent exclusion or”;
- (c) in the words after sub-paragraph (c), for “5(2)” substitute “5(3)”.

(11) In paragraph (9)—

- (a) omit “for a fixed period”;
- (b) in the English language text, for “he or she” substitute “the pupil”;
- (c) for “local authority” substitute “management committee”.

(12) In paragraph (10), for “local authority” substitute “management committee”.

(13) After paragraph (10) insert—

“(11) The notice in writing referred to in paragraph (6)(b) may be given either—

- (a) by delivering it by hand to the relevant person’s last known address, or

- (b) drwy ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf, mewn amlin wedi'i chyfeirio'n briodol a'i rhagdal, i gyfeiriad hysbys diwethaf y person perthnasol."

Diwygio rheoliad 8 o Reoliadau UCD 2003

7.—(1) Mae rheoliad 8 (apelau yn erbyn gwahardd disgylion yn barhaol) o Reoliadau UCD 2003 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), yn lle “yr athro neu'r athrawes â gofal o dan adran 52(2) i wahardd disgyl yn barhaol” rhodder “y pwylgor rheoli o dan reoliad 7 i beidio â derbyn yn ôl ddisgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol”.

(3) Ym mharagraff (3)—

- (a) yn lle “adran 52(2) o Ddeddf 2002” rhodder “reoliad 7”;
- (b) yn y testun Cymraeg, yn lle “herbyn” rhodder “erbyn”;
- (c) ar y diwedd mewnosoder “, neu'r gwaharddiad neu'r penderfyniad gan yr athro neu'r athrawes â gofal yr oedd y penderfyniad hwnnw yn ymwneud ag ef”.

(4) Ym mharagraff (4), ar ôl “yr athro neu'r athrawes â gofal” mewnosoder “, y pwylgor rheoli”.

(5) Ym mharagraff (5)(c), yn lle “i'w dderbyn” rhodder “i dderbyn y disgyl”.

Diwygio rheoliad 9 o Reoliadau UCD 2003

8.—(1) Mae rheoliad 9 (gwahardd disgylion: canllawiau) o Reoliadau UCD 2003 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

“(aa) y pwylgor rheoli.”.

(3) Ym mharagraff (2), yn lle “Gynulliad Cenedlaethol Cymru” rhodder “Weinidogion Cymru”.

Diwygio rheoliad 9A o Reoliadau UCD 2003

9. Yn is-baragraff (b) o reoliad 9A (gwaharddiadau — safon y prawf) o Reoliadau UCD 2003, yn lle “awdurdod lleol” rhodder “pwylgor rheoli”.

- (b) by sending it by first class post in a properly addressed, pre-paid envelope to the relevant person's last known address.”

Amendments to regulation 8 of the 2003 PRU Regulations

7.—(1) Regulation 8 (appeals against permanent exclusion of pupils) of the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

(2) In paragraph (1), for “teacher in charge under section 52(2) of the 2002 Act to permanently exclude a pupil” substitute “management committee under regulation 7 not to reinstate a pupil who has been permanently excluded”.

(3) In paragraph (3)—

- (a) for “section 52(2) of the 2002 Act” substitute “regulation 7”;
- (b) in the Welsh language text, for “herbyn” substitute “erbyn”;
- (c) at the end insert “, or the exclusion or decision by the teacher in charge to which that decision related”.

(4) In paragraph (4), after “teacher in charge” insert “, the management committee”.

(5) In paragraph (5)(c), for “his or her” substitute “the pupil's”.

Amendments to regulation 9 of the 2003 PRU Regulations

8.—(1) Regulation 9 (exclusion of pupils: guidance) of the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

(2) In paragraph (1), after sub-paragraph (a) insert—

“(aa) the management committee.”.

(3) In paragraph (2), for “National Assembly for Wales”, substitute “Welsh Ministers”.

Amendment to regulation 9A of the 2003 PRU Regulations

9. In sub-paragraph (b) of regulation 9A (exclusions—standard of proof) of the 2003 PRU Regulations for “local authority” substitute “management committee”.

Diwygio'r Atodlen i Reoliadau UCD 2003

10.—(1) Mae'r Atodlen (addasiadau i'r Atodlen i Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003) i Reoliadau UCD 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- (2) Hepgorer paragraff 1.
- (3) Ar y dechrau, mewnosoder paragraff 1A—

"1A. Ym mharagraff 1(1)—

- (a) yn lle "6(1)" rhoddir "8(1)";
- (b) yn lle "6(6)(b)" rhoddir "7(6)(b)"."

- (4) Hepgorer paragraff 2.

- (5) Ym mharagraff 4—

- (a) ym mharagraff (a) o'r addasiad i baragraff 2(7), hepgorer "(os oes un)";
- (b) ym mharagraff (ch)(ii) o'r addasiad i baragraff 2(7), yn lle "ei wahardd" rhodder "wahardd y disgylb";
- (c) yn y geiriau ar ôl paragraff (ch)(ii) o'r addasiad i baragraff 2(7), yn lle "ei allu" rhodder "allu'r person".

- (6) Ym mharagraff 5—

- (a) ar ddiwedd yr addasiad i baragraff 10(2)(a) hepgorer "a";
- (b) ar ôl yr addasiad i baragraff 10(2)(a) mewnosoder—
 - "(aa) i'r pwyllgor rheoli roi sylwadau ysgrifenedig, i gael ei gynrychioli ac i ymddangos a rhoi sylwadau llafar, a";
- (c) ym mharagraff (b) o'r addasiad i baragraff 10(2), hepgorer "yn ychwanegol at y datganiad y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei gyflwyno i'r panel o dan is-baragraff (1)."

- (7) Yn lle paragraff 6 rhodder—

"6. Ym mharagraff 14(a), yn lle "y corff llywodraethu a'r penneth" rhodder "y pwyllgor rheoli a'r athro neu'r athrawes â gofal"."

Amendments to the Schedule to the 2003 PRU Regulations

10.—(1) The Schedule (modifications of the Schedule to the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003) to the 2003 PRU Regulations is amended as follows.

- (2) Omit paragraph 1.
- (3) At the beginning, insert paragraph 1A—

"1A. In paragraph 1(1)—

- (a) for "7(1)" there is substituted "8(1)";
- (b) for "6(6)(b)" there is substituted "7(6)(b)"."

- (4) Omit paragraph 2.

- (5) In paragraph 4—

- (a) in paragraph (a) of the modification to paragraph 2(7), omit "(where one exists)";
- (b) in paragraph (d)(ii) of the modification to paragraph 2(7), for "his or her" substitute "the pupil's";
- (c) in the words after paragraph (d)(ii) of the modification to paragraph 2(7), for "his or her" substitute "the person's".

- (6) In paragraph 5—

- (a) at the end of the modification to paragraph 10(2)(a) omit "and";
- (b) after the modification to paragraph 10(2)(a) insert—
 - "(aa) the management committee to make written representations, to be represented and to appear and make oral representations, and";
- (c) in paragraph (b) of the modification to paragraph 10(2), omit "in addition to the statement the authority is required to submit to the panel under sub-paragraph (1)".

- (7) For paragraph 6 substitute—

"6. In paragraph 14(a), for "the governing body and the head teacher" there is substituted "the management committee and the teacher in charge"."

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion
Cymru
6 Mawrth 2024

©⑥Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a
goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd
Deddfau Senedd y Brenin.

Minister for Education and Welsh Language, one of
the Welsh Ministers
6 March 2024

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Jeff James, Controller
of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of
Parliament.

£8.14

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/316>

ISBN 978-0-348-39547-1



9 780348 395471